

**Cyngor Cymuned Llandyfaelog Community Council**

**Cadeirydd/Chairman:  
Elfyn Williams**

**Clerc/Clerk: Arfon Davies  
Maesmawr  
Glan-y-Fferi / Ferryside  
Caerfyrddin / Carmarthen  
SA17 5YD**

**Cynllun Iaith Gymraeg  
Hunan Aseiad 2021-22**

**Welsh Language Scheme  
Self Assessment 2021-22**

**Mae'n ofyniad fod y Cyngor fel rhan o'i Chynllun Iaith yn danfon Hunan Aseiad blynyddol at Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg yn esbonio sut mae'r Cyngor yn cwrdd â gofynion ei Chynllun Iaith Gymraeg a dderbyniwyd cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 19eg Ionawr 2001.**

**Mae'r adroddiad canlynol yn ffurfio Hunan Aseiad y Cyngor ac os bydd y Cyngor yn ei gymeradwyo gall ffurfio'r ymateb blynyddol at y Gomisiynydd.**

**Arfon Davies  
Clerc  
24.1.22**

**It is a requirement of the Council's Welsh Language Scheme that an Annual Self Assessment is sent to the Welsh Language Commissioner explaining how the Council is meeting the requirements of its Welsh Language Scheme which received the approval of the Welsh Language Board on 19<sup>th</sup> January 2001.**

**The following report provides this self assessment and if it is approved by Council can form the response to the Commissioner.**

**Arfon Davies  
Clerc  
24.1.22**

**Cynllun Iaith Gymraeg  
Hunan Asesiad 2021-22  
Welsh Language Scheme  
Self Assessment 2021-22**

**Enw'r Cyngor / Council Name:** Cyngor Cymuned Llandyfaelog Community Council

**Enw'r Clerc / Name of Clerk:** Arfon Davies

**Mae'r Cyngor yn sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei hystyried wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau.**

**The Council ensures that the Welsh Language is considered in service planning and delivery.**

<b>Mae'r Cyngor yn gofalu fod unrhyw bolisiau newydd y cael ei asesu am effaith ieithyddol er mwyn ei fod yn gyson â'r Cynllun Iaith. Mae'r Cyngor yn hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg i ymhob un o'i weithredoedd. Mae pob agwedd o wasanaethau'r Cyngor ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg ac maent yn gyfartal o ran safon uchel â'r gwasanaethau darperir trwy gyfrwng y Saesneg.</b>	<b>The Council ensures that all new policies and initiatives are assessed for their linguistic effect so that they are consistent with the Council's Welsh Language Scheme. The Council promotes and facilitates the use of Welsh in all its activities. All aspects of the Council's services are available to the public through the medium of Welsh and these services are of an equally high standard as the services provided in English.</b>
---	--

**Mae'r Cyngor yn ymdrin â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg yn unol â'u dewis iaith.**

**The Council responds to members of the public who speak Welsh in accordance with their language preference.**

<b>Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth neu alwadau ffôn yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn derbyn sylw yn ôl yr un raddfa amser gyda gohebiaeth derbynnir yn y Gymraeg yn cael ei ateb yn y Gymraeg. Mae pob cylchlythyr a llythyr safonol i'r Cyhoedd yn ddwyieithog. Mae pob hysbysrwydd am gyfarfodydd y Cyngor yn ddwyieithog a chroesawir cyfraniadau yn y Gymraeg yn y cyfarfodydd.</b>	<b>The Council welcomes correspondence or telephone calls in either English or Welsh. Correspondence through the medium of either English or Welsh are dealt with within the same timescale with every letter received in Welsh being answered in Welsh. All circular or standard letters to the public are bilingual. All publicity for Council meetings is bilingual and contributions in Welsh at meetings are welcome.</b>
---	--

**Mae wyneb cyhoeddus y Cyngor yn ddwyieithog.**

**The Councils public face is bilingual.**

<b>Enw'r Cyngor yw Cyngor Cymuned Llandyfaelog Community Council, mae'r Cyngor yn mabwysiadu delwedd gorfforaethol gwbl ddwyieithog. Mae enw a chyfeiriad y Cyngor yn ymddangos yn ddwyieithog ar bapur pennawd ayyb. Mae</b>	<b>The Council's name is Cyngor Cymuned Llandyfaelog Community Council, the Council adopts a fully bilingual corporate identity. The Council's name and address appears in both languages on all Council letter headings etc. All Council agendas,</b>
---	--

<p>pob agenda, cofnodion, adroddiadau, hysbysiadau a deunydd cyhoeddusrwydd y Cyngor yn ddwyieithog mewn modd sydd yn trin y ddwy iaith ar sail cydraddoldeb. Mae Datganiadau Derbyniad Swydd yn ddwyieithog. Mae gwefan y Cyngor yn ddwyieithog.</p>	<p>minutes, reports, advertisements and publicity material are bilingual and treat both languages on a basis of equality. Declarations of Acceptance of Office are produced bilingually. The Council's website is bilingual.</p>
---	--

Mae'r Cyngor yn dilyn trefniadau staffio yn unol â mesurau'r Cynllun.

The Council operates staffing measures in accordance with Scheme measures.

<p>Mae hysbysebion swyddi yn ymddangos yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg / dwyieithog ac ar hysbysfyrddau a gwefan y Cyngor ac yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg. Ystyrir gwybodaeth rugl o'r Gymraeg yn hanfodol i swydd Clerc y Cyngor.</p>	<p>All advertisements for jobs appear bilingually in English / bilingual publications and on the Council noticeboards and Website and in Welsh only in Welsh language publications. A fluent knowledge of Welsh is considered essential for the post of Clerk.</p>
---	--

Mae'r Cyngor yn gweithredu trefniadau gweinyddol yn unol â mesurau'r Cynllun.

The Council's administrative arrangements comply with Scheme measures.

<p>Mae gan Gynllun Iaith y Cyngor llawn gefnogaeth Cyngor Cymuned Llandyfaelog. Mae gan y Clerc a'r Cyngor gyfrifoldeb i weithredu'r Cynllun o fewn y Cyngor ac i sicrhau fod y Cynllun yn cael ei ddilyn ar bob achlysur. Mae Clerc y Cyngor yn ddwyieithog ac mae pob dogfen a gwasanaeth y Cyngor yn cwrdd â gofynion y Cynllun.</p>	<p>The Council's Welsh Language Scheme has the full support of Llandyfaelog Community Council. The responsibility for implementation of the Scheme within the Council rests with the Clerk and the Council who ensure that the scheme is complied with at all times. The Clerk to the Council is bilingual and all documentation and services of the Council meet the requirements of the Scheme.</p>
---	---

Mae'r Cyngor â'r Clerc yn monitro fod y Cyngor yn cadw at holl fesurau'r Cynllun Iaith.

The Council and Clerk monitor compliance with all measures contained within the Welsh Language Scheme.

<p>Mae'r Cyngor yn derbyn adroddiad blynyddol ar gydymffurfiaeth gyda'r Cynllun. Mae'r Clerc yn gyfrifol am fonitro'r Cynllun Iaith. Mae'r Clerc yn sicrhau fod pob gwasanaeth neu ddogfen y Cyngor yn cwrdd â gofynion y Cynllun.</p>	<p>The Council receives an annual report on compliance with the Scheme. The Clerk is responsible for the monitoring of the Welsh Language Scheme. The Clerk ensures that all Council services and documentation meets the requirements of the Scheme.</p>
--	---

Sylwadau pellach

Further comments

--	--

Llofnod / Signature..... Dyddiad / Date.....